Safon Uwch Astudiaethau’r Cyfryngau (Amser Llawn)

Mae Astudiaethau’r Cyfryngau yn canolbwyntio ar lawer o bethau yr ydych eisoes yn eu hadnabod ac yn eu mwynhau megis ffilmiau, rhaglenni teledu, cerddoriaeth a hysbysebion. Byddwn yn dysgu i chi sut i ystyried cynhyrchion o’r fath yn feirniadol, gan feddwl yn ddadansoddol sut y maent yn cael eu creu a’u defnyddio. Mae Astudiaethau’r Cyfryngau hefyd yn cynnwys gwaith ymarferol, lle’r ydych yn dysgu’r technegau a ddefnyddir i gynhyrchu eich testun chi eich hun ar gyfer y cyfryngau. Gallech gynhyrchu fideos pop, hysbysebion ar gyfer y teledu, hysbysebion ar gyfer cylchgronau, bywddarluniau cyfrifiadurol, gwefannau a fideos dogfen. Uwchlaw popeth, dylech ddod yn fwy ymwybodol o’ch arferion o ran defnyddio’r cyfryngau ac yn fwy tueddol o gwestiynu’r hyn yr ydych yn ei ddefnyddio.

Gwneud cais am Safon Uwch? Cliciwch ‘Gwneud Cais Nawr’ ar unrhyw UN o’r pynciau y mae gennych ddiddordeb ynddynt, llenwch y ffurflen gais ar-lein ac wedyn cadwch le ar gyfer Noson Wybodaeth i gyfarfod â’r tiwtoriaid a thrafod y pynciau o’ch dewis. Bydd modd i chi wedyn ddewis eich pynciau ar y noson!

Cod UCAS: EAAD03MEDS

Gofynion Mynediad

Isafswm o 6 TGAU â gradd C neu uwch. Mae TGAU yn Astudiaethau'r Cyfryngau'n fantais er nad yw'n orfodol.

Rhagolygon Gyrfa

Gyda mynediad at ddwy ystafell olygu ar y safle, meddalwedd sydd o'r un safon â rhai'r diwydiant a stiwdio broffesiynol i ddatblygu eich gwaith ymarferol, a chithau'n gweithio fel rhan o dîm cynhyrchu yn ogystal ag yn unigol, bydd y cwrs hwn yn eich paratoi ar gyfer astudiaethau pellach yn y cyfryngau, newyddiaduraeth, darlledu a chyfathrebu ar lefel addysg uwch neu ar gyfer cyflogaeth yn y diwydiannau darlledu, neu efallai y byddwch yn dymuno gweithio i chi eich hun a datblygu eich cwmni chi eich hun yn y cyfryngau hyd yn oed.

Modiwlau’r cwrs

Mae Astudiaethau’r Cyfryngau hefyd yn cynnwys gwaith ymarferol, lle’r ydych yn dysgu’r technegau (megis

ffilmio, golygu fideo, dylunio graffig ac anodi) a ddefnyddir i gynhyrchu eich cynnyrch chi eich hun ar gyfer y cyfryngau. Byddwch yn cael briffiau penodol a byddwch yn penderfynu ar fath o gynnyrch ar gyfer y cyfryngau i ateb y briffiau hynny. Bydd ymchwil, cynllunio a chynhyrchu'n sail i'ch gwaith cwrs yn ogystal â dadansoddiad myfyriol o'ch gwaith cynhyrchu chi eich hun. Mae Astudiaethau'r Cyfryngau hefyd yn cynnwys gwaith ymarferol, lle'r ydych yn dysgu'r technegau a ddefnyddir i gynhyrchu eich testun chi eich hun ar gyfer y cyfryngau. Gallech gynhyrchu fideos pop, hysbysebion ar gyfer y teledu, hysbysebion ar gyfer cylchgronau, bywddarluniau cyfrifiadurol, gwefannau a fideos dogfen. Gyda mynediad at ddwy ystafell olygu ar y safle, meddalwedd sydd o'r un safon â rhai'r diwydiant a stiwdio broffesiynol i ddatblygu eich gwaith ymarferol, a chithau'n gweithio fel rhan o dîm cynhyrchu yn ogystal ag yn unigol, bydd y cwrs hwn yn eich paratoi ar gyfer astudiaethau pellach yn y cyfryngau, newyddiaduraeth, darlledu a chyfathrebu ar lefel addysg uwch neu ar gyfer cyflogaeth yn y diwydiannau darlledu, neu efallai y byddwch yn dymuno gweithio i chi eich hun a datblygu eich cwmni chi eich hun yn y cyfryngau hyd yn oed.

DULL ASTUDIO
FT

LLEOLIAD
Coleg Castell-nedd - 01639 648000

HYD Y CWRS
2 years